**YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CORONAFEIRWS, TEITHIO RHYNGWLADOL) (CYMRU) (DIWYGIO) (RHIF 2) 2020**

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 29 Gorffennaf 2020.

**Pwyntiau craffu technegol:**

2. Dim materion yn codi.

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Mynediad at ganllawiau*

3. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r sylwadau yn yr adroddiad drafft ynghylch cael mynediad at ganllawiau, ond mae'r canllawiau cywir ar esemptiadau ar gyfer gwledydd a thiriogaethau penodol wedi bod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ers 16 Gorffennaf. Diwygiwyd y canllawiau ar 27 Gorffennaf er mwyn hepgor Sbaen o'r rhestr yn dilyn y newid yn ei statws.